

INDEPENDENT MONITORING BOARD

**ANNUAL REPORT
FOR
H M P CARDIFF**

REPORTING PERIOD

1 SEPTEMBER 2013 – 31 AUGUST 2014

BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
CARCHAR EM CAERDYDD**

CYFNOD ADRODD

1 MEDI 2013 – 31 AWST 2014

Disgrifiad o Garchar Caerdydd

Mae Carchar EM Caerdydd yn garchar lleol traddodiadol yng nghanol y ddinas gyda'i wreiddiau yn dyddio'n ôl i 1827. Ei brif rôl yn flaenorol oedd bod yn garchar i gadw pobl ar gyfer remand a threialon, a charcharorion a ddedfrydwyd i dymhorau byr a chanolig. Roedd yr adeiladau a'r ystafelloedd yn rhai Fictoraidd yn bennaf gyda lefelau uchel o orlenwi a charcharorion yn rhannu cell rhwng tri yn gyffredin.

Adeiladwyd adain newydd ym 1996 i ddarparu ar gyfer 200 o ddynion ychwanegol, gan gynnwys 96 o garcharorion oes. Cwblhawyd gwaith adnewyddu mawr yn 2004 gyda'r capasiti gweithredol yn cynyddu i 754 o leoedd, a 50 yn rhagor o fis Rhagfyr 2008 gan gynyddu'r capasiti i 804. Yn 2014, cafwyd cynnydd pellach ac fe dyfodd y capasiti presennol i 820.

Mae Caerdydd yn garchar lleol/hyfforddi Categori B sy'n gwasanaethu'r llysoedd yn hanner gorllewinol De Cymru, a Dyffrynnoedd Caerdydd. Mae'n dal cyfuniad o garcharorion ar Remand, rhai ar Dreial, rhai wedi'u heuogfarnu a rhai wedi'u Ddedfrydu a charcharorion Oes. Mae'n cynnig ystod eang o gyfleoedd mewn hyfforddiant ac addysg, gan fynd i'r afael ag ymddygiad troseddwr a dadwenwyno o ganlyniad i gyffuriau ac alcohol.

Mae adolygiad poblogaeth a wnaed yn ddiweddar wedi arwain at ymestyn dalgylch remand Caerdydd. Mae Caerdydd bellach hefyd yn derbyn Oedolion Ifainc sydd ar remand; mae hyn yn ychwanegol at ei swyddogaeth fel carchar hyfforddiant gan ganolbwyntio ar garcharorion sy'n oedolion a ddedfrydwyd i lai na 2 flynedd.

RÔL STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn mynnu bod pob carchar ac IRC yn cael eu monitro gan Fwrdd annibynnol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref o blith aelodau'r gymuned y mae'r carchar wedi'i leoli ynddi.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol yn benodol am:

- (1) Fodloni ei hun ynghylch triniaeth drugarog y rhai a gedwir yn y ddalfa o fewn ei garchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- (2) Rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae ef wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y barna sy'n briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo.
- (3) Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol am ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith a gaiff y rhain ar y rhai yn ei gystodaeth.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd i gofnodion y carchar.

CRYNODEB GWEITHREDOL

3/1 Un o'r materion mwyaf arwyddocaol i adrodd arno yw cyflwyniad y "Ffyrdd Newydd o Weithio" gan golli 62 o swyddogion carchar o ganlyniad i hyn. Cafodd hyn effaith enfawr ar boblogaeth y carchar i ddechrau, gydag ôl-ffeithiau ar y landins, ac amseroedd gweithdy a gweithgareddau yn cael eu lleihau i hanner diwrnod, gan fynd bob yn ail rhwng adenydd. Ar hyn o bryd mae penodiadau ar y gweill i benodi staff sifil i'r swyddi gweithdai hyn ac rydym yn edrych ymlaen at welliant parhaus yn y swydd. Ar hyn o bryd, mae gweithgareddau adeiladol yn bum awr a hanner y dydd ar gyfartaledd.

3/2 Mae'r trawsnewid hwn wedi cael effaith ar y staff a'r carcharorion gyda dwbl

y nifer o geisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) ar ddechrau'r drefn, ac roedd angen atgoffa staff mai prif gyfrifoldeb yr IMB yw monitro ac i beidio â delio â materion dyddiol y dylid ymdrin â nhw ar y pryd gan staff adain. Mae hon yn broblem barhaus.

3/3 Mae rhannau o'r carchar Fictoraidd gwreiddiol mewn cyflwr gwael gyda llwydni a mowld du ar y waliau allanol, mae hyn yn risg iechyd i garcharorion ac mae'r mater wedi cael ei ddwyn i sylw'r Llywodraethwr. Cafwyd sicrwydd y bydd y mater yn cael ei gywiro a bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

3/4 Mae'r rhan fwyaf o'r celloedd â dwbl y niferoedd, ac mae diffyg Llenni Preifatrwydd o gwmpas y toiled mewn nifer fawr o gelloedd. Er bod y mater wedi cael ei ddwyn i sylw'r Llywodraethwr a chadarnhad bod Llenni sbâr ar gael yn y Storfeydd, prin yw'r dystiolaeth bod y sefyllfa wedi gwella. Mae angen cynnal preifatrwydd ac urddas sylfaenol bob amser.

3/5 Cwyn sy'n codi'n aml yw'r ôl-groniad o Gyrrfyyw Cyfyngu i'r Cartref (HDC). Daw cwynion rheolaidd gan garcharorion fod oedi hir mewn ymatebion i geisiadau HDC. Cafwyd achosion lle mae'r carcharor wedi cwblhau hanner ei ddedfryd ac yn barod i gael ei ryddhau, cyn yr ymdriniwyd â'r cais HDC. Mae hyn wedi arwain at garcharorion yn cael eu carcharu, ond pe byddent wedi cael eu delio â nhw'n brydlon, gallent fod wedi cael eu rhyddhau yn gynharach, a thrwy hynny leihau poblogaeth y carchar. Nid yw'r Bwrdd yn meddwl y bydd y sefyllfa yn gwella yn y dyfodol agos.

3/6 Mae eiddo carcharor yn parhau i fod yn nodwedd reolaidd o geisiadau i'r Bwrdd. Er bod canllawiau ar reoli cyfeintiol, yn llawer rhy aml, mae carcharorion yn cyrraedd naill ai heb unrhyw eiddo, neu dim ond rhan ohono, a threulir llawer iawn o amser ac ymdrech yn ceisio datrys y sefyllfa. Bu sawl achlysur lle mae pob cell yn y cerbyd cludiant yn llawn, gan adael dim lle ar gyfer yr eiddo. Mae ymholiadau yn awgrymu y gallai hyn fod yn fater cytundebol.

4/1 Mae'n drueni gan y Bwrdd roi gwybod am dair Marwolaeth yn y Ddalfa yn ystod y flwyddyn yr adroddwyd arni, ac mae'n destun pryder sylweddol i'r Bwrdd. Mae Aelodau IMB wedi mynychu Llys y Crwner am y cwestau ffurfiol ac mae'r holl sylwadau ac argymhellion wedi cael eu nodi a'u monitro. Rhoddwyd sylw arbennig i garcharorion newydd sy'n cyrraedd y dderbynfa a'r asesiadau a wnaed, ac mae'r Bwrdd yn falch o adrodd bod yr argymhellion a wnaed yn dilyn hynny wedi cael eu gweithredu'n llawn, yn enwedig mewn perthynas â charcharorion Noson Gyntaf gyda monitro rheolaidd yn y maes hwn.

4/2 Mewn adroddiadau blaenorol, nodwyd materion Gofal Iechyd. Mae'r Bwrdd yn falch o adrodd gwelliant gyda newid mewn Rheolaeth o'r uned hon, ond rydym yn dal i dderbyn nifer anghymesur o gwynion ynghylch presgripsiynau, gyda charcharorion yn teimlo nad ydynt yn cael amrywiaeth o feddyginiaeth fuddiol a oedd wedi ei darparu gan Feddygon Teulu'r gymuned.

4/3 Mae'r cwestiwn o Wladolion Tramor yn cael eu carcharu tu hwnt i'w dyddiad rhyddhau yn cael ei fonitro'n rheolaidd, ac mae'r Bwrdd yn falch o adrodd nad oes unrhyw Wladolion Tramor yn y ddalfa ar ôl diwedd eu dedfryd. Mae hyn yn welliant mawr dros y blynyddoedd diwethaf.

4/4 Problem ddiweddar yw "anterthau cyfreithlon" sydd ynddynt eu hunain yn anodd eu canfod gyda dulliau monitro presennol, ond mae tystiolaeth eu bod yn cael eu defnyddio, er nad yw hynny ar hyn o bryd yn helaeth. Mae cyffuriau presgripsiwn yn parhau i gael eu cam-drin drwy eu cuddio yng nghledrau dwylo pan fydd meddyginiaeth yn cael ei dosbarthu, ac mae angen mwy o oruchwyliaeth yn y man dosbarthu i atal hyn rhag parhau.

4/5 Mae pryderon wedi'u mynegi i'r Llywodraethwr ynghylch y diffyg staff ymroddedig sy'n goruchwyllo carcharorion yn ystod ymweliadau. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i atgyfnerthu niferoedd "yn ôl y gofyn", mae cyfleoedd i smyglo contraband. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y diffyg cyfleusterau, gan gynnwys y crèche, ar ymweliadau. Gellir gweld plant ifanc yn rhedeg yn rhydd heb oruchwyliaeth.

4/6 Mae gan y Bwrdd bryderon ynghylch diffyg "Gwrandawyr" ar yr adenydd. Ar adeg adrodd, dim ond un Gwrandawr oedd yn y carchar cyfan. Mae hyn o ganlyniad i ffactorau amrywiol, gan gynnwys cwblhau dedfrydau a throsglwyddiadau. Mae camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i recriwtio ar gyfer y gwasanaeth pwysig iawn hwn o fewn y sefydliad.

4/7 Yn olaf, mae'r Bwrdd yn mwynhau'r cyd-barch rhyngddynt eu hunain a staff y carchar, gan dderbyn cyfrifoldebau ei gilydd. Mae diffygion yn cael eu trafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwr a bydd bob amser yn rhoi ymateb i'r materion a godwyd.

4/8 Yn gyffredinol, mae'r Targedau Perfformiad cyffredinol a bennwyd gan y carchar wedi bod yn gyson dda, gyda pherfformiad yn cyrraedd Lefel 4, gyda'r Prif Arolygydd Carchardai yn gwneud ymweliad wedi'i drefnu yn 2013. Arweiniodd hyn at adroddiad cadarnhaol, gan ddweud bod Rheolaeth a Staff yn haeddu clod sylweddol am y gwelliannau a wnaethant.

Cydraddoldeb a chynhwysiant

5/1 Mae aelod enwebedig o'r Bwrdd yn dod i gyfarfodydd Amrywiaeth a Chydraddoldeb yn rheolaidd ond gyda record wael o ganslo cyfarfodydd. Fodd bynnag, cawsant eu hail-sefydlu yn Chwefror yn dilyn cyfnod hir o anweithgarwch. Yn anffodus, mae'r cyfarfodydd yn parhau i gael eu canslo, yn aml ar fyr rybudd oherwydd amrywiaeth o resymau - prinder staff ar yr adenydd sy'n golygu bod angen ail-gyfeirio swyddogion at ddyletswyddau eraill, sef y prif reswm dros ganslo.

5/2 Bu rhagor o broblemau gyda sefydlu'r Offeryn Monitro Cydraddoldeb, a aeth yn fyw ym mis Chwefror eleni, gan ddisodli ymyriadau blaenorol. Mae anghysondeb mewn ystadegau wedi cael ei ganfod ynghylch nifer y ceisiadau a gofnodwyd gan y Ganolfan Fusnes, ond gan fod hwn yn strwythur cymharol newydd, mae gwelliannau wedi'u gwneud mewn cofnodion mwy cywir.

5/3 Cynhwysiant cymunedol - dim ond un asiantaeth allanol newydd sydd wedi cael ei sefydlu o fewn y carchar, sef New Leaf. Mae hon yn asiantaeth sy'n rhedeg grwpiau ffocws ar gyfer carcharorion Mwslimaidd a BME i fynd i'r afael â meddyliau ac ymddygiad sy'n ymwneud â dicter a gofid. Mae hefyd yn darparu cynllun cymorth i gynorthwyo gyda materion budd-daliadau, tai a theulu i gynorthwyo carcharorion pan gânt eu rhyddhau i'r gymuned.

5/4 Mae cynrychiolwyr Amrywiaeth Carchardai wedi cael eu penodi a'u hyfforddi, ynghyd â grwpiau ffocws carcharorion sy'n canolbwyntio ar nodweddion rhagweithiol Hil, Crefydd, Oedran ac Anabledd.

5/5 Mae CEM Caerdydd yn ymroddedig i Anabledd a Chydraddoldeb, gyda Llywodraethwyr a Swyddogion yn dangos ymroddiad, cymhelliant a brwdfrydedd. Fodd bynnag, oherwydd prinder staff, nid yw'r Swyddogion â digon o gapasiti i gyflawni eu rolau fel y byddent yn dymuno, oherwydd fe darfir ar eu hymdrechion yn rheolaidd oherwydd prinder staff ar yr adenydd, gan wneud cynnydd yn araf, ac ar adegau, yn amhosibl.

Sgiliau Dysgu ac Addysgu

5/6 Mae pob carcharor yn cael eiasesu ar gyfer llythrennedd sylfaenol ac mae eu gofynion yn cael eu hymgorffori yn eu Cynllun Dedfryd, gyda digon o leoedd i bawb sydd eu hangen nhw. Nid oes unrhyw wrthdaro rhwng gweithgareddau a mynychu addysg, gan nad oes gwahaniaeth cyflog rhwng mynychu addysg a gwaith cyflogedig arall.

5/7 O bryd i'w gilydd, mae cyrsiau Addysg yn cael eu canslo a gellir priodoli hyn i ddiffyg staff adain sydd ar gael i hebrwng a goruchwyllo staff i ddosbarthiadau, er nad yw hyn yn fethiant rheolaidd.

5/8 Mae cyrsiau Addysg yn ystyried y trosiant mawr o garcharorion, yn enwedig y rhai ar Remand fel eu bod yn seiliedig ar system fodwlar wythnosol.

Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl

6/1 Ers 2013 mae rheolaeth a gweinyddiaeth tîm gofal iechyd y carchar wedi bod yn gyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae hyn wedi arwain at well arweinyddiaeth glinigol a chefnogaeth llywodraethu clinigol yn ogystal â gwell mynediad at hyfforddiant a datblygu staff gofal iechyd.

6/2 Mae nifer y carcharorion wedi dyblu dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda chyfartaledd o 50% o garcharorion yn aros llai na phythefnos a 70% yn aros llai na phedair wythnos. Yn y tri mis cyntaf o'r cyfnod adrodd, roedd cyfartaledd o 30 o garcharorion newydd y dydd. Mae gan hyn oblygiadau sylweddol i'r Tîm Gofal Iechyd.

6/3 Mae'r gweithlu Gofal Iechyd wedi cael ei orlwytho a chae'n dioddef o ddiffyg adnoddau, gyda llawer o salwch ymhlith staff. Nododd y Cyfarwyddwr Clinigol, ar ei phenodiad yn 2012, bod y tîm yn wynebu brwydr anodd gyda gweithlu a oedd wedi'i ymddieithrio a gyda diffyg sgiliau. Nid oedd anghenion hyfforddiant staff yn cael eu bdloni bob amser oherwydd pwysau staff, ac roedd o gryn bryder, gan ei fod yn cynnwys hyfforddiant sylfaenol.

6/4 Ers hynny bu gwelliannau mewn perfformiad megis sgrinio iechyd eilaidd, dull mwy trwyadl i Asesu Risg, yn enwedig o ran asesiadau derbyn. Bu gwelliannau wrth ystyried a chofnodi'r holl ffactorau risg hysbys o hunan niwed a'r rhai sydd ag anghenion iechyd brys oherwydd cam-drin sylweddau neu roi'r gorau i ddefnyddio alcohol. Mae gwasanaethau Deintyddol, Fferylliaeth a nyrsio wedi cael eu hadolygu ac mae deinameg y tîm gofal iechyd wedi cael ei ystyried gyda'r nod o ddarparu gwell gofal i gleifion.

6/5 Mae clinigau meddyg teulu ddwywaith yr wythnos ar yr adenydd yn boblogaidd iawn, yn ogystal â chyfarfodydd wythnosol ar atgyfeiriadau iechyd meddwl, sy'n cael eu mynychu gan y meddygon teulu neu nyrs iechyd Gofal Sylfaenol. Mae angen rhoi rhywfaint o sylw i atgyfeiriadau priodol, oherwydd yn gynharach eleni roedd hyd at 20% o'r rhai a atgyfeiriwyd â phryderon iechyd meddwl yn cael eu hystyried yn amhriodol.

6/6 Mae penodiadau staff ychwanegol wedi digwydd ar draws y bwrdd, gan gynnwys Deintydd ychwanegol, mae hyn wedi lleihau'r amser aros o 50%. Mae 90% o Sgrinio Iechyd Eilaidd bellach yn cael ei gwblhau y diwrnod ar ôl derbyn y carcharwr, a dwy flynedd yn ôl dim ond 30% a gafodd y sgrinio hwn. Mae clinigau sgrinio iechyd Rhywiol ddwywaith yr wythnos yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd.

6/7 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gofal Iechyd yn cyfarfod bob chwarter ac mae archwiliad mewnol wedi'i gwblhau er mwyn sicrhau bod prosesau priodol a llywodraethu yn cael eu rhoi, gan gynnwys Rheoli Risg, Adrodd am Ddigwyddiadau, rheoli pryderon, anghenion hyfforddi absenoldeb staff a'r cytundeb lefel gwasanaeth.

6/8 Mae blaenoriaethau allweddol megis Twbercwlosis, Cyn-filwyr, Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl wedi cael eu nodi. Bydd angen cyflwyno adroddiadau mwy manwl yn y dyfodol at ddibenion Llywodraeth Cymru ar y meysydd hyn.

6/9 Ymddengys bod yr Adran Gofal Iechyd yn gweithredu'n fwy effeithlon ac yn fwy boddhaol gyda meysydd a nodwyd yn glir ac yn gweithredu'n well. Mae rhai meysydd sy'n peri pryder yn parhau, fel y llwybr Iechyd Meddwl sy'n cael ei adolygu'n sylweddol, cyfathrebu o fewn a thu allan i'r adran, rhai meysydd hyfforddiant, marwolaethau yn y ddalfa / dynladdiad a chysondeb cyffredinol.

6/10 Mae amcanion clir ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi cael eu hatgyfeirio yn ogystal ag amcanion tymor hwy gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n well ac yn fwy bodlon yn eu rôl.

Gweithgarwch pwrpasol gan gynnwys Gwaith

7/1 Mae gan y Bwrdd fynediad i wybodaeth ddiweddaraf ar ddyraniad gwaith a'r ystod o weithgareddau pwrpasol. Gyda chyflwyniad "Ffyrdd Newydd o Weithio", nid yw llawer o weithdai bellach yn cael eu goruchwyllo gan swyddogion a'r bwriad yw penodi staff sifil sydd â sgiliau priodol i gymryd y gweithdai drosodd. Bu rhywfaint o oedi wrth lenwi rhai o'r swyddi oherwydd gofynion hyfforddi / diogelwch ond mae craidd y gweithdai'n parhau i fod ar gael ar gyfer gwaith.

7/2 Mae'r gweithdai canlynol yn parhau i fod ar gael:

Atgyweiriadau beiciau (a anfonir at Wledydd Trydydd Byd)

Mecaneg Moduron

Argraffu

Glanhau Masnachol

Pecynnu (gan gynnwys pecynnau brecwast mewnol)

Golchi dillad

Dyletswyddau cegin

Railtrack (hyfforddiant diogelwch gan gynnwys gwaith contract Rheilffordd)

Atgyweirio a Chynnal a Chadw Priffyrdd

Paentio ac Addurno

Adeiladu a Gosod

Brics

7/3 Ar hyn o bryd, oherwydd bod staff hyfforddi yn cael eu hyfforddi'n barhaus, mae pob carcharor yn gallu treulio hanner diwrnod mewn gweithdy, bob yn ail ag amser ar yr adenydd. Dylai'r sefyllfa wella erbyn diwedd y flwyddyn.

Ailsefydlu

7/4 Roedd carchar Caerdydd yn destun Arolygiad yn 2013. Roedd y materion y nodasant a oedd yn ymwneud ag Ailsefydlu yn canolbwyntio ar reolaeth strategol o adsefydlu. Roedd yn nodi'r angen am asesiad digonol i alluogi staff a charcharorion i lunio cynlluniau a fyddai'n cefnogi carcharorion yn eu hadsefydliad. Mewn ymgais i ymdrin â hyn, mae'r rheolaeth strategol o Adsefydlu nawr drwy'r Llywodraethwr sy'n gyfrifol yn uniongyrchol i'r uwch dîm rheoli yn hytrach na chyfarfodydd rheoli ddwywaith y mis nad oedd niferoedd uchel yn eu mynychu.

7/5 Mae cynlluniau ailsefydlu yn seiliedig ar broses sefydlu pedair wythnos gyda'r broses yn dechrau yn fuan yn ystod y ddedfryd, ar ôl cael eu dyrannu i adain. Mae'r broses yn cynnwys asesiadau sy'n ymwneud ag anghenion addysg a hyfforddiant, galluoedd mewn "sgiliau meddal" ac anghenion y carcharor tra bydd yn y ddalfa a phan fyddant yn cael eu rhyddhau.

8/1 Oherwydd newidiadau o fewn y gyfundrefn, mae mwy o garcharorion yn cael cynnig addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn ystod eu cyfnod dan glo. Fodd bynnag, gall llawer o hyn fod ar sail rhan amser yn hytrach na llawn amser, o ganlyniad i niferoedd y carcharorion. Nid yw hyn yn cefnogi pobl yn y camau pontio rhwng carchar achyflogaeth yn ddigonol ar ôl eu rhyddhau.

8/2 Mae'r asesiad yn ailedrych ar y "Bwrdd Rhyddhau" sy'n cael ei gynnal cyn rhyddhau carcharor. Mae pob carcharor yn cael gwybod pa wasanaethau sydd ar gael a'r hyn y gellir ei roi ar waith i'w cefnogi ar ôl eu rhyddhau. Ar yr adeg hon, mae penderfyniadau ar y cyd yn cael eu gwneud o ran yr hyn sydd ei angen. Ar hyn o bryd, mae nifer o asiantaethau allanol yn helpu gyda'r broses hon wrth gynnig cyngor ar dai, hyfforddiant, cyflogaeth a chyllid.

8/3 Ar gyfer carcharorion remand mae cynllun ymgynghori mewn perthynas â chyfeiriadau Mechnïaeth yn dal i gael cefnogaeth gan staff mewn lifrai, ond nid hyn yw eu rôl bellach a dylai goruchwylwyr troseddwr sydd yn y carchar gymryd drosodd, ond nid ydynt ar waith eto. Nid yw Rhaglenni Ymddygiad Troseddu bellach yn cael eu rhedeg o fewn y carchar sy'n lleihau mynediad at y broses adsefydlu. Rhagwelir y bydd staff sifil yn cymryd drosodd y gwaith o redeg a rheoli'r holl adsefydliad yn gynnar y flwyddyn nesaf.

8/4 Mae Ymgynghorwyr cyfoedion a Mentoriaid a reolir gan Ymddiriedolaeth St Giles wedi cael eu hyfforddi bellach i helpu gyda'r gwaith o gyrsiau cyn rhyddhau a chymorth o ddydd o ddydd i garcharorion. Bydd y rôl hon yn cael ei hehangu'n fuan drwy ofyn i'r Ymgynghorwyr Cymheiriaid gynnig targedu cymorth i oedolion ifanc yn y carchar y barnwyd sydd fwyaf aflonyddgar. Bydd rôl y cynghorydd cymheiriaid yn cael ei asesu gan NVQ a bydd yn arwain at gymhwyster. Cyn cael ymgynghorwyr cymheiriaid, roedd pryder y gallai rhai carcharorion fod yn anhapus i drafod eu hanghenion gyda charcharorion eraill. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod hyn yn broblem, gan fod carcharorion yn dal i gael mynediad at staff yr adain os ydynt yn dymuno siarad â rhywun yn gyfrinachol.

8/5 Mae Prifysgol Caerdydd ar fin dechrau prosiect ymchwil yn y carchar sy'n edrych ar raglenni cyffuriau ac alcohol a'u llwyddiant. Bydd y rhaglen yn rhedeg am gyfnod o ddeunaw mis.

8/6 Mae staff sy'n ymwneud ag ailsefydlu yng Ngharchar Caerdydd yn parhau i fod yn frwdfrydig ac yn ymroddedig i'r angen am adsefydlu ac ailsefydlu. Fodd bynnag, mae trosiant uchel carcharorion yn y sefydliad, materion staffio a chyfradd y newid sefydliadol o fewn y gwasanaeth carchardai yn parhau ar y cyfan, a bydd yn parhau i fod yn broblem ar gyfer y tîm ailsefydlu.

Dalfa Mwy Diogel

8/7 Cynhelir cyfarfodydd Dalfa Mwy Diogel yn fisol ac yn cael eu mynychu gan y personél priodol, gan gynnwys cynrychiolydd IMB. Mae'r pynciau agenda yn cynnwys adroddiad misol gan y rheolwr Dalfa Mwy Diogel, adroddiad y Samariaid a Chynllun Gwelliant Parhaus Dalfa Mwy Diogel CEM Caerdydd, Dalfa Mwy Diogel Cymru, materion hyfforddi a lleihau trais.

8/8 Y ffigur mwyaf diweddar a adroddwyd am staff sy'n cydymffurfio â Hyfforddiant Ymwybyddiaeth ACCT yw 53.79% gydarhaglen barhaus i wella ar y ffigur hwn. O bryder drwy gydol y flwyddyn yw'r nifer isel iawn o "Wrandawyr" sydd ar gael ar bob adain. Nid oes Gwrandawyr ar gael ar rai adenydd, gyda dim ond un Gwrandawr ar gael yn y carchar cyfan ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Mae hyn o ganlyniad i drosglwyddiadau a rhyddhau carcharorion, er derbyniwyd ceisiadau yn ddiweddar a ddylai arwain at benodiadau yn y dyfodol agos.

8/9 Penderfyniad a wnaethpwyd beth amser yn ôl oedd peintio murluniau ar waliau'r "Celloedd Diogel" at ddibenion therapiwtig, ond yn anffodus, nid yw hyn wedi'i wneud eto.

9/1 Ceir y brif drafodaeth a sylw i'r cynnydd mewn marwolaethau yn y ddalfa. Mae gweithredu proses sefydlu well a monitro'r ychydig nosweithiau cyntaf yn y ddalfa yn hollbwysig. Mae prinder staff a lleoli y tu allan i sefydliadau eraill, toriadau, ac adnoddau isel yn peri straen difrifol ar y gwasanaeth.

9/2 Mae adnoddau ychwanegol yn cael eu hystyried gyda lefel uwch o oruchwyliaeth rheoli yn cael eu penodi i'r rôl Dalfa Mwy Diogel. Mae llawer o waith da yn cael ei wneud gan swyddogion cydwybodol a gyda'r newidiadau arfaethedig, gellir gwneud gwaith gwell fyth.

Gwahanu, Gofal ac Arwahanu, Goruchwyliaeth Agos

9/3 Mae'r Bwrdd yn fodlon bod yr ystod ganlynol o swyddogaethau, gweithgareddau a chyfleusterau craidd yn cael eu bodloni yng Ngharchar Caerdydd. Mae'r adeiladau, cyfleusterau, trefn (ar gyfer eu diogelwch eu hunain), eu diddordeb eu hunain a threfn dda

neu ddisgyblaeth, staffio a diogelwch yn yr uned yn briodol. Mae'r gwaith papur, gan gynnwys log dyddiol, taflenni hanes gwahanu, taflenni iechyd gwahaniad cychwynnol, ffurflenni ACCT/ACDT agored wedi'u diweddarau ac yn gyfredol.

9/4 Mae'r Bwrdd bob amser yn cael gwybod o fewn 24 awr am symudiadau i wahanu, ac mae aelodau'r Bwrdd yn gallu gweld a siarad yn rhwydd gyda phob carcharor yn rheolaidd. Mae paneli adolygu wedi cael eu cynnal yn briodol gyda'r arbenigwyr angenrheidiol yn bresennol. Mae'r wybodaeth angenrheidiol bob amser ar gael ac mae cyfle i'r carcharor gyflwyno sylwadau yn bersonol.

Mae'r Bwrdd yn derbyn rhybudd amserol o fyrddau adolygu'n rheolaidd, yn cadw cofnod o fynychwyr ac achosion a bydd yn cymryd unrhyw gamau a all fod yn angenrheidiol i sicrhau bod y drefn gywir yn cael ei dilyn. Defnyddir Cyfyngu Cellog (CC), llety arbenigol a chyfyngiadau mecanyddol yn briodol, ac mae Protestiadau Budr yn cael eu trin yn broffesiynol ac yn ddiogel.

9/5 Mae staff Gofal ac Arwahanu (CASU) yn cynnal deialog dda gyda Gofal Iechyd ac adrannau Inreach i reoli gofal carcharorion gyda phroblemau iechyd meddwl. Mae problemau gydag "arhoswyr hir" ar yr uned yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar lefel Llywodraethwyr.

9/6 Mae SMARG (Grŵp Monitro ac Adolygu Arwahanu) yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gadeirio ar lefel Llywodraethwyr. Ysgogwyd cryn newid ac arloesi gan yr arolygiad llawn diwethaf (2013) gan HMIPC. Y mwyaf arwyddocaol oedd yr angen i ddarparu trefn ddisgyblu sy'n annog dilyniant mesuradwy, yn dilyn penderfynu ar ddyfarniad neu ddarostyngiad Cynllun Cymhellion a Breintiau a Enillir (IEP). Byddai'r effaith gyffredinol yn cynnwys cymhelliant ymddygiad clir ar ran y carcharor a datganoli cyfrifoldeb dros reoli ymddygiad i staff y Landin. Mae'r cynllun wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus, a cheir ymagwedd sy'n llawer mwy goleuedig ac ymylol i reoli ymddygiad

Gwasanaethau Preswyl, (yn cynnwys llety, bwyd, arlwyo a cheginau)

10/1 Yn gyffredinol, mae'r adeiladau mewn cyflwr da oherwydd fe ychwanegwyd sawl adain rai blynyddoedd yn ôl gyda dulliau adeiladu modern. Fodd bynnag, mae gweddill y carchar yn adeiladu Fictoraidd gyda waliau cerrig solet a thystiolaeth o leithder, ac mewn rhai celloedd ceir mowld du ar y waliau. Mae'r ardaloedd yn cael eu glanhau yn rheolaidd, ond heb waliau ceudod ac awyru, mae'n ail-y addeddangos yn gyflym. Mae'raddurno'n dda gyda phob ardal yn cael ei phaentio'n rheolaidd. Derbynir cwynion cyson ynghylch ansawdd matresi gwely, sydd yn boenus o denau ac o'u harchwilio, ymddengys eu bod o bosibl yn anghyfforddus. Mae'r rhan fwyaf o gelloedd yn dal dau garcharor a gwneir ymdrechion i sicrhau nad yw ysmygwyr a phobl nad ydynt yn ysmegu yn rhannu'r un gell.

10/2 Mae'r cyfleusterau arlwyo yn lân ac yn ddibynadwy gydag ychydig iawn o gwynion yn ymwneud ag ansawdd y bwyd. Mae pryddau'n amrywiol, sy'n darparu ar gyfer carcharorion o amrywiaeth ethnig, â gofynion alergeddau, llysiuol a fe gan. Mae bwyd yn cyrraedd ar amser ar yr adenydd ac nid oes llawer iawn o wastraff. Mae'r manau gweini'n cael eu glanhau bob dydd cyn ac ar ôl eu defnyddio, ac mae'r Bwrdd yn samplu'r bwyd ar y gweinydd ym mhresenoldeb y carcharorion. Gweithiodd staff yn galed i sicrhau bod carcharorion Moslemaidd yn gallu dathlu Ramadan, a gweithiodd staff a charcharorion oriau ychwanegol yn y gegin er mwyn sicrhau bod pryddau bwyd yn cael eu gweini yn hwyrach yn y nos.

10/3 Mae'r ceginau yn cael eu rheoli'n arbennig o dda, gyda bwyd yn cael ei anfon at yr adenydd ar amser, lle bo'n briodol, mewn troliau wedi'u gwresogi, ac mae safon glanweithdra yn yr adeilad yn cael ei wirio ar ymweliadau dyddiol, ac ymddengys iddo fod yn dda.

Ardaloedd Eraill o Gyfundrefn y Carchar**DERBYNFA**

10/4 Mae'r Dderbynfa yn adran hynod o brysur, gyda nifer fawr o garcharorion remand yn cael eu casglu o ddalgylch mawr, yn hwyr yn y prynhawn yn bennaf. Mae'r adran wedi'i staffio'n llawn gyda swyddogion profiadol, sy'n asesu'r holl ddyfodiaid yn drylwyr cyn eu trosglwyddo i gael asesiad Gofal Iechyd. Mae chwiliadau personol yn cael eu cynnal yn drylwyr a'r holl eiddo wedi'u cyfrif. Mae newydd-ddyfodiaid yn mynd i adain y dderbynfa lle maent yn cael eu dyrannu â llety yn ôl yr asesiad risg iechyd / diogelwch. Mae camau pellach yn cael eu cymryd nawr lle mae rhybudd datodadwy yn cael ei roi ar ddrws y gell, i atgoffa staff adain ei bod yn noson gyntaf y carcharor a bod angen lefel uwch o fonitro.

10/5 Mae sefydlu'n digwydd ar y bore canlynol cyn symud ymlaen i adain briodol.

CAPLANIAETH

10/6 Mae'r staff aml-ffydd yn darparu eu gofal arferol i garcharorion o bob ffydd ac yn ateb eu pryderon. Mae digwyddiadau Cyfiawnder Adferol yn cael eu cynnal ac yn cael derbyniad da gan yr holl garcharorion sy'n mynychu. Darperir cefnogaeth i garcharorion â phroblemau teuluol a marwolaethau yn y ddalfa. Mae gwasanaethau rheolaidd yn cael eu cynnal yng nghapel y carchar ar gyfer pob ffydd.

AMSER ALLAN O'R GELL

11/1 Oherwydd newid yn y gyfundrefn a ddaeth yn sgil y 'Ffyrdd Newydd o Weithio', bu newid i'r gyfundrefn lle mae adenydd yn gweithredu gweithgareddau defnyddiol bob yn ail ar sail rota, gan newid rhwng y bore a'r prynhawn rhwng adenydd. Cynhelir o leiaf bum awr o amser allan o'r gell. Bu adegau pan gwtogwyd ar hyn oherwydd amrywiol resymau, prinder staff fel arfer, ond nid yw hyn yn digwydd yn rheolaidd. Mae hyn yn cael ei fonitro'n agos gan y Bwrdd.

11/2 DADANSODDIAD O BOBLOGAETH Y CARCHAR

Heb eu dedfrydu	13.1%
Adalw	7.3%
Remand Wedi'u dedfrydu	24.3%
	55.2

CENEDLIGRWYDD

Prydeinig	93.5%
Gwladolion Tramor	5.4%
Heb ei Nodi	1.1%

Byrfoddau a ddefnyddir yn yr Adroddiad

IMB Bwrdd Monitro Annibynnol

HDC Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref

BME Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig

NVQ Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol

ACCT Gofal Asesiad mewn Cystodaeth a Gwaith Tîm

CASU Uned Gofal ac Arwahanu

SMARG Grŵp Monitro ac Adolygu Arwahanu

HMIPC Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi

IEP Cynllun Cymhellion a Breintiau a Enillir

OBP Rhaglen Ymddygiad Troseddwyr

GWAITH Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Dylai'r adran hon ddisgrifio sut y mae'r Bwrdd wedi cynnal ei rôl drwy gyfrwng ymweliadau rota, ceisiadau gwrandawiaid, adolygiadau arwahanu, meddygfeydd, holiaduron, cyfarfodydd fel sylwedyddion, llythyrau sy'n codi materion gyda Gweinidogion neu uwch reolwyr. Dylid defnyddio'r templed canlynol ar gyfer cofnodi data ystadegol allweddol.

BWRDD YSTADEGAU	
Y nifer a argymhellir o Aelodau'r Bwrdd	17
Nifer aelodau 'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	14
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	14
Nifer yr aelodau newydd yn ymuno o fewn y cyfnod adrodd	2
Nifer yr aelodau a adawodd yn ystod y cyfnod adrodd	1
Cyfanswm nifer y cyfarfodydd Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd	12
Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r Sefydliad	717
Cyfanswm nifer yr adolygiadau arwahanu a gynhaliwyd	134
Cyfanswm nifer yr adolygiadau arwahanu yr aethpwyd iddynt	44
Dyddiad Adolygiad Perfformiad Tîm Blynnyddol	Mawrth 2014

Adran 7 (parhad)

Dylid cael cyfres lawn o ystadegau ar geisiadau IMB bob amser ar ffurf y templed isod. Bydd y rhain, ynghyd â sylwadau'r Bwrdd, o gymorth i'r Ombwdsmon a rheolaeth yn gyffredinol. Dylid gwneud sylwadau lle bu newidiadau sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

Cod	Testun	Blwyddyn 2010/2011	Blwyddyn 2011/2012	Blwyddyn	Blwyddyn 2013/2014
A	Llety	13	16		8
B	Dyfarniadau		1		
C	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys crefydd)	3	7		16
D	Addysg/Cyflogaeth/ Hyfforddiant gan gynnwys IEP	12	5		24
E 1	Teulu/ymweliadau gan gynnwys post a ffôn	14	7		25
E 2	Arian/tâl		11		36
F	Cysylltiedig â bwyd/cegin	7	4		15
G	Cysylltiedig ag iechyd	103	97		159
H 1	Eiddo (o fewn y sefydliad)	43	29		33
H 2	Eiddo (yn ystod trosglwyddiad/mewn sefydliad arall)	12	11		52
H 3	Ffreutur, cyfleusterau, siopa Catalog, Argos	10	11		9
I	Cysylltiedig â'r ddedfryd (gan gynnwys HDC, ROTL, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-ddosbarthu ac ati)	96	38		89
J	Staff/carcharor/ pryderon y sawl a oedwir gan gynnwys	12	20		17
K	Trosglwyddiadau	21	26		46

L	Amrywiol	70	36		141
	Cyfanswm nifer y ceisiadau IMB	416	369		770
	Cyfanswm: Nifer y diwrnodau IMB, Mynediad Cyfrinachol yn ??????	54	41		24

Bydd ystadegau carchar / canolfan arall y gall y Bwrdd fod am eu cynnwys - dyfarniadau, hunan-niweidio ac ymosodiadau ac ati. Fodd bynnag, mae Gweinidogion ac awdurdodau carchar / canolfan eisoes â'r ffigurau hyn (yn wahanol i geisiadau IMB), felly dim ond pan maent yn helpu i nodi mater o bryder neu arfer da y dylid eu cynnwys yn yr adran briodol o'r adroddiad, ac wedyn dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i ddangos y pwynt a'i bwysigrwydd.